## COFNODION

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Gwener, 31 Ionawr 2003 |
| **Amser:** | 10.00 am tan 1.15 pm |
| **Lleoliad:** | Theatr John Ambrose, Ysgol Brynhyfryd, Rhuthun |

### Yn bresennol

| | |
|---|---|
| *Aelodau* | |
| Peter Rogers, Cadeirydd | Gogledd Cymru |
| Eleanor Burnham | Gogledd Cymru |
| Alison Halford | Delyn |
| Ann Jones | Dyffryn Clwyd |
| David Ian Jones | Gogledd Cymru |
| Tom Middlehurst | Alun a Glannau Dyfrdwy |
| Rhodri Morgan (eitem 4) | Gorllewin Caerdydd |
| Alun Pugh | Gorllewin Clwyd |
| Janet Ryder | Gogledd Cymru |
| Karen Sinclair | De Clwyd |
| Dafydd Wigley | Caernarfon |
| *Hefyd yn bresennol* | |
| John Hughes (eitem 3) | Cadeirydd, Pwyllgor Amddiffyn rhag Llifogydd Rhanbarth Cymru |
| Helen Phillips (eitem 3) | Cyfarwyddwr Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd |
| David Gatehouse (eitem 3) | Rheolwr Ardal Gogledd Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd |
| Meic Davies (eitem 3) | Rheolwr Amddiffyn rhag Llifogydd Ardal Gogledd Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd |

| | |
|---|---|
| *Yr Ysgrifenyddiaeth* | |
| Siwan Davies | Clerc y Pwyllgor |
| Vaughan Watkin | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Eitem 1: Cyflwyniad, Ymddiheuriadau a Datgan Buddiannau**

1.1 Croesawodd y Cadeirydd aelodau'r Pwyllgor, y swyddogion ac aelodau'r cyhoedd i'r cyfarfod.

1.2 Roedd ymddiheuriadau wedi dod i law oddi wrth Gareth Jones, Ieuan Wyn Jones, John Marek, a Dafydd Elis-Thomas.

**Eitem 2: Cofnodion y cyfarfod blaenorol ar 1 Tachwedd 2002**

2. NWR 05-02 (min)

2.1 Cymeradwyodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Tachwedd, cyn belled â bod y frawddeg ganlynol yn cael ei ychwanegu at ddiwedd y pwynt bwled cyntaf o baragraff 3.2: "*Nododd y Prif Gwnstabl y byddai'r pedwar Awdurdod Heddlu yng Nghymru yn cefnogi datganoli'r cyfrifoldeb dros blismona i Gynulliad Cenedlaethol Cymru"*.

2.2 Dywedodd y Cadeirydd fod Aelodau'r Pwyllgor wedi cwrdd yn anffurfiol yr wythnos flaenorol â'r ceiswyr ar gyfer masnachfraint rheilffyrdd Cymru a'r Gororau. Roedd wedi ysgrifennu at y Gweinidog dros yr Amgylchedd yn amlinellu safbwyntiau'r Pwyllgor. Yn dilyn y cyhoeddiad ynghylch gwasanaethau rheilffordd Virgin rhwng Llundain a Gogledd Cymru, roedd cyfarfod wedi cael ei alw gyda Virgin Trains.

**Eitem 3: Amddiffyn rhag Llifogydd**

3.1 Roedd y Pwyllgor wedi gwahodd Asiantaeth yr Amgylchedd a Chadeirydd Pwyllgor Amddiffyn rhag Llifogydd Gogledd Cymru i amlinellu'r rhaglenni amddiffyn rhag llifogydd presennol ac arfaethedig yng Ngogledd Cymru. Yn ei gyflwyniad, dywedodd David Gatehouse fod:

- Yr Asiantaeth yn gyffredinol yn croesawu'r cyllid ar gyfer 2003-04, sydd ychydig o dan £7.5 miliwn, sef cynnydd ar y flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, roedd hwn tua

£1.35 miliwn yn is na'r ffigurau ar sail y "gofynion", a byddai'n rhaid dod i benderfyniadau anodd iawn ar rai cynlluniau cyfalaf a blaenoriaeth refeniw. Roedd y diffyg cyllid ar gyfer y flwyddyn yn cyfateb i tua 0.2% o grant cymorth refeniw blynyddol i awdurdodau lleol yng Nghymru.

- Roedd y setliad yn golygu y gallai gwaith fynd yn ei flaen ar y cynlluniau amddiffyn rhag llifogydd yn ystod 2003-04 ym Mangor ar Gynllun Gwella Amddiffyn rhag Llifogydd Dyfrdwy a Chynllun Gwella Llifddorau Afon Rhydhir ym Mhwllheli. Roedd gwaith wedi'i gwblhau yn ddiweddar hefyd ar Adnewyddu Llifddorau Malltraeth, Cynllun Gwella Morol Cei Connah, Adnewyddu Cob Porthmadog ac Adnewyddu Llifddorau Afon Dyfrdwy. Byddai cam olaf y gwelliannau yn Rhuthun yn cael ei gwblhau ym mis Ebrill 2003.

- Yn ogystal â darparu cynlluniau amddiffyn rhag llifogydd, roedd y gyllideb hefyd yn cael ei defnyddio i gynghori ar ddatblygu ar y gorlifdiroedd, i wella'r gwasanaeth rhybudd o lifogydd a rhagolygon, cynnal a gwella cynlluniau amddiffyn rhag llifogydd presennol ac archwilio'r posibilrwydd o godi amddiffynfeydd rhag llifogydd yn y dyfodol.

3.2 Canolbwyntiodd y drafodaeth gyda'r Aelodau ar:

- A oedd digon o bwerau cyfreithiol gan yr Asiantaeth a'r awdurdodau lleol i orfodi gwaith amddiffyn rhag llifogydd. Nodwyd bod ganddynt bwerau 'caniataol' ac y gallai gwaith gael ei gynnal, yn amodol ar gyllid;

- Y meini prawf ar gyfer blaenoriaethu cynlluniau amddiffyn rhag llifogydd. Roedd y rhain yn seiliedig ar risg, gan gynnwys y risg i fywydau ynghyd â'r ffactorau economaidd a defnydd tir a lefel yr atalfeydd presennol;

- Asesu'r risg o lifogydd ar arfordir Gogledd Cymru a'r buddsoddi sydd ei angen i amddiffyn rhag llifogydd. Awgrymwyd y dylai'r Asiantaeth a'r awdurdodau lleol gyflwyno cais i'r Cynulliad Cenedlaethol am gyllid;

- Rôl rheoli datblygiad yr Asiantaeth. Nodwyd bod yr Asiantaeth yn ymgynghorai i'r ceisiadau cynllunio a'i bod yn annog perchnogion eiddo masnachol i lunio cynlluniau risg llifogydd;

- Y pryder ynghylch llifogydd yn yr Orsedd o ganlyniad i gau llifddorau'r gored yng Nghaer. Nodwyd bod astudiaethau modelu wedi cael eu cynnal;

- Ffyrdd o annog pobl leol i ddefnyddio systemau rhybudd o lifogydd, megis ymgyrchoedd i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd ac ymweliadau ag ysgolion a chymunedau;

- Yr angen i wneud y defnydd gorau o wybodaeth leol wrth wneud gwaith cynnal a chadw ac wrth ymateb ar frys. Holodd yr Aelodau pa ganran o gyllideb amddiffyn rhag llifogydd yr Asiantaeth sy'n cael ei wario ar waith cynnal a chadw. **Byddai'r Asiantaeth yn ysgrifennu at y Pwyllgor gyda'r manylion**.

3.3 Cododd aelodau o'r gynulleidfa y pwyntiau canlynol:

- Roedd y Cynghorydd Klifford Davies o Bwyllgor Amddiffyn rhag Llifogydd Lleol Dyserth, a oedd wedi ysgrifennu at y Pwyllgor yn amlinellu ei bryderon, yn cefnogi'r cynnig i gynnwys cynlluniau llai amddiffyn rhag llifogydd yn rhaglen yr Asiantaeth. Nododd yr Asiantaeth y byddai cynlluniau o'r fath yn cael eu cynnwys yn eu rhaglenni yn y dyfodol;

- Tynnodd Steve Robinson, sy'n byw yn yr Wyddgrug ac sydd wedi dioddef o lifogydd yn ei gartref sylw at waith lleol diweddar nad oedd yn cael ei adlewyrchu ar fap llifogydd yr Asiantaeth. Roedd hyn wedi arwain at yswiriant ei gartref yn cael ei atal. Nodwyd bod mapiau llifogydd yn cael eu diweddaru'n rheolaidd, ond mai dim ond unwaith y flwyddyn y cânt eu cyhoeddi fel modd i'w rheoli. Gofynnwyd i unrhyw un sy'n cael anhawster yswirio'i gartref gysylltu â'r Asiantaeth;

- Pwysleisiodd Len Dalson o Gymdeithas Amddiffyn rhag Llifogydd Dyfrdwy Isaf yr angen am waith cynnal a chadw gwell er mwyn cadw'r dyfrffyrdd yn glir;

- Cyfeiriodd y Cyng Chris Bithell, Cyngor yr Wyddgrug, at y ffaith bod cyfrifoldeb dros waith amddiffyn rhag llifogydd yn cael ei rannu rhwng yr Asiantaeth a'r awdurdodau lleol a bod hyn yn arwain at anghydraddoldebau o ran cyllid. Roedd yn cefnogi'r cynnig i greu un asiantaeth. Gofynnodd y Cyng Morgan Vaughan, Cyngor Sir Gwynedd a chyn-gadeirydd y Pwyllgor Amddiffyn rhag Llifogydd, i ffurf newydd o ariannu gael ei ystyried;

- Dywedodd Jackie Jones, Cyngor Tref Rhuthun, fod y trigolion yn dymuno i'r cyllid fod ar gael o flaen llaw er mwyn gwneud gwaith amddiffyn rhag llifogydd yn eu hardal;

- Cymeradwyodd y Cyng Curford, Cyngor Tref Dyserth, y gwaith a wnaed gan Gyngor Sir Ddinbych yn Nyserth, ond awgrymodd y dylai'r Asiantaeth barhau gyda'r gwaith hwn trwy wneud gwaith cynnal a chadw ymhellach i lawr y nant. Nododd yr Asiantaeth ei fod yn awyddus i gwblhau'r gwaith sydd ei angen yn yr ardal;

- Cyfeiriodd Brynle Williams, darpar ymgeisydd y Cynulliad dros Orllewin Clwyd a Gogledd Cymru, at y diffyg gwaith cynnal a chadw ar yr afonydd a'r cyfathrebu gwael rhwng yr awdurdodau lleol;

- Mynegodd Elwyn Edwards, sy'n byw yn Rhuthun, ei ddiolch i'r Asiantaeth ac i John Hughes am y gwaith a wnaed, a gofynnodd i Gyngor Sir Ddinbych gwblhau'r gwaith ar gynllun Rhuthun cyn etholiad nesaf y cyngor. Cadarnhaodd Ian Miller, Prif Weithredwr Cyngor Sir Ddinbych y byddai'r gwaith yn dechrau ar 24 Chwefror 2003;

- Dywedodd y Cyng Stuart Anderson, Cyngor Tref Conwy, y dylai pob corff sy'n ymwneud ag amddiffyn rhag llifogydd fynd i'r afael â bygythiad newid hinsawdd, gan ganolbwyntio ar gynaliadwyedd tymor hir.

3.4 Byddai'r Pwyllgor yn ysgrifennu at y Gweinidog dros Ddiwylliant yn cyfeirio at yr angen i adolygu'r cyfrifoldebau presennol a'r trefniadau cyllido ar gyfer gwaith amddiffyn rhag llifogydd. Cynigiodd Ian Miller ysgrifennu at y Cadeirydd yn awgrymu ffyrdd o wneud y mecanwaith ar gyfer ariannu'r Asiantaeth drwy'r awdurdodau lleol yn fwy effeithlon.

**Eitem 4: Cwestiynau i'r Prif Weinidog**

4.1 Fe wnaeth y Prif Weinidog wahodd cwestiynau gan aelodau o'r gynulleidfa, fel y ganlyn:

- Mynegodd y Cyng Bob Barton, Cyngor Cymuned Llanarmon-yn-Iâl, bryder bod y cod ymddygiad ar gyfer y cynghorwyr yn eu hatal rhag cynrychioli buddiannau lleol

mewn ceisiadau cynllunio. Pwysleisiodd y Prif Weinidog ei fod yn hanfodol nad yw cynghorwyr sy'n aelodau o bwyllgorau cynllunio yn cynrychioli unrhyw fuddiannau am eu bod yn arfer rôl led-farnwrol. Holodd y Cyng Barton hefyd pam nad oedd yr amser a dreuliodd yn disgwyl am apwyntiad ysbyty yn cyfrif fel 'amser aros'. **Gofynnodd y Prif Weinidog i'r Cyng Barton am fanylion ei achos er mwyn iddo ateb ei ymholiad**;

- Gofynnodd Glenys Davies o Ruthun a oedd gan y Cynulliad yr awdurdod i orfodi cynghorau i wneud gwaith amddiffyn rhag llifogydd yn gyflymach. Dywedodd y Prif Weinidog fod y gwaith yn cael ei wneud mewn partneriaeth rhwng y Cynulliad Cenedlaethol, yr awdurdodau lleol, yr Asiantaeth a pherchnogion tir;

- Pwysleisiodd Les Starling, y Comisiwn Coedwigaeth, yr angen am reolaeth well o'r bryniau a gorlifdiroedd diogel. Cytunodd y Prif Weinidog â'r angen i ganfod ffyrdd o reoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â newid hinsawdd;

- Fe wnaeth Wayne Edwards, ymddiriedolwr tir lleol, gwestiynu'r angen i rannu'r tir er mwyn bodloni gwaith amddiffyn rhag llifogydd. Dywedodd y Prif Weinidog fod angen cadw cydbwysedd rhwng buddiannau'r perchnogion tir a'r cymunedau y mae llifogydd yn effeithio arnynt ym mhob achos;

- Gofynnodd Neil Crumpton, Cyfeillion y Ddaear Cymru, a fyddai argymhellion adroddiad y Pwyllgor Datblygu Economaidd ar ynni adnewyddadwy yn cael eu rhoi ar waith. Dywedodd y Prif Weinidog y byddai Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymateb i adroddiad y Pwyllgor. Nid oedd polisi ynni wedi'i ddatganoli i'r Cynulliad, ond roedd disgwyl i bapur gwyn Llywodraeth y DU ar ynni adnewyddadwy gael ei gyhoeddi maes o law;

- Gofynnodd Ursel Luhde, Canolfan Cyngor ar Bopeth Dinbych, am hawl y rhai nad ydynt yn byw yn barhaol mewn ardal awdurdod lleol i gael teithio ar fws am ddim. **Byddai'r Prif Weinidog yn ysgrifennu at Ms Luhde gyda manylion y meini prawf cymhwyster mewn perthynas â hyn;**

- Mynegodd Arthur Pennant a Brynle Williams bryder am yr oedi wrth dalu'r cymorthdaliadau i ffermwyr. Dywedodd y Prif Weinidog ei fod yn edifar am yr oedi wrth dalu. Roedd hyn wedi digwydd o ganlyniad i anawsterau a oedd yn gysylltiedig â chysoni systemau cyfrifiadurol newydd a rhai presennol. Byddai

modd gwneud taliadau â llaw mewn achosion o galedi ariannol;

- Awgrymodd y Cyng Godfrey, Bethesda, y gallai cynlluniau amaeth-amgylcheddol megis Tir Gofal gael eu defnyddio i fynd i'r afael â llifogydd. Cytunodd y Prif Weinidog a dywedodd y byddai'r adolygiad cyfredol o'r Polisi Amaethyddiaeth Cyffredin yn symud o roi cymhorthdal i gefnogi cynlluniau amaeth-amgylcheddol;

- Awgrymodd David Williams, Cyngor Dyserth, fod llawer o gyllid y Cynulliad yn cael ei fuddsoddi yn Ne Cymru a bod pobl Gogledd Cymru yn teimlo allan ohoni. Dywedodd y Prif Weinidog nad oedd unrhyw wahaniaeth rhwng gwariant y pen yn y Gogledd a'r De. Fe wnaeth annog awdurdodau lleol yng Ngogledd Cymru i wneud cais am gyllid Cymru-gyfan e.e. Grantiau'r Loteri. Galwodd Meurig Huws, Cyngor Tref Llangefni, am fwy o fuddsoddi yn y cysylltiadau trafnidiaeth rhwng Gogledd a De Cymru. Dywedodd y Prif Weinidog fod arian wedi'i fuddsoddi yn yr A470 ond bod angen hefyd ystyried effaith prosiectau ffordd ar yr amgylchedd;

- Diolchodd David Taylor, disgybl chweched dosbarth, i'r Prif Weinidog am yr £1.6 miliwn o gyllid ar gyfer yr adeilad newydd yn Ysgol Brynhyfryd. Gofynnodd am sicrwydd na fyddai'r cyllid yn cael ei dynnu'n ôl o Frynhyfryd ac ysgolion eraill yn yr ardal. Dywedodd y Prif Weinidog fod rhaglen buddsoddi deng mlynedd ar gyfer adeiladau ysgolion a bod hyn yn cynnwys rôl ar gyfer PFI.

4.2 Diolchodd y Cadeirydd i'r Prif Weinidog ac aelodau o'r cyhoedd am eu cyfraniadau. Ar ran y Pwyllgor, diolchodd i staff a disgyblion Ysgol Brynhyfryd am gynnal y cyfarfod.

**Eitem 5: Dyddiad y cyfarfod nesaf**

5.1 Bydd cyfarfod nesaf y Pwyllgor am 10am, dydd Gwener 7 Mawrth 2003 yng Nghanolfan Hamdden Arfon, Caernarfon.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor**

**Chwefror 2002**